

Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr**

Deintyddfa Tywyn

12 Ionawr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	9
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	13
5.	Camau Nesaf	15
6.	Methodoleg	16
	Atodiad A.....	18

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd AGIC arolygiad yn Neintyddfa Tywyn, Neptune Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 9HA, ar 12 Ionawr 2016.

Archwiliodd AGIC sut roedd Deintyddfa Tywyn yn bodloni'r safonau gofal a nodwyd yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) ac mewn deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd am arolygiadau deintyddol ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad gyda chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr i sicrhau bod barn cleifion wrth wraidd ein dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau mae'r gwasanaethau yn cyflenwi gofal diogel, effeithiol a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar y person.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'n arwain at ddarparu gofal effeithiol a diogel. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad yn erbyn y safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir mwy o fanylion am ein methodoleg yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Tywyn yn cynnig gwasanaethau i gleifion yn ardal Tywyn yng Ngwynedd. Mae'r ddeintyddfa yn rhan o wasanaethau a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Deintyddfa Tywyn yn ddeintyddfa gymysg sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Rhoddir gofal deintyddol yn breifat i oedolion, ac mae gwasanaethau'r GIG ar gael i blant o dan 18 a phobl hyd at 25 oed sydd mewn addysg llawn amser.

Mae tîm staff y ddeintyddfa yn cynnwys dau ddeintydd (un ohonynt yw'r prif ddeintydd), rheolwr y ddeintyddfa (sydd hefyd yn gweithio'n rhan amser fel hylenydd), tair nyrs ddeintyddol, a derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol, ac mae'r prif ddeintydd hefyd yn gwneud gwaith orthodonteg.

3. Crynodeb

Yn gyffredinol, gwelsom fod Deintyddfa Tywyn yn darparu gwasanaeth o ansawdd da sy'n cael ei barchu gan ei gleifion.

Dywedodd yr holl gleifion a lenwodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniwyd yn Neintyddfa Tywyn. Roedd naws groesawgar ac roeddent wedi cael digon o wybodaeth ynglŷn â'u triniaeth.

Er ein bod wedi gwneud rhai argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth, rydym yn fodlon ar y cyfan bod y ddeintyddfa'n cyrraedd y safonau gofynnol.

Canfuwyd bod y ddeintyddfa'n gwneud y canlynol yn dda:

- Mae trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel
- Mae cyfleusterau clinigol yn cynnwys offer digonol, sy'n lân ac yn daclus
- Caiff offerynnau deintyddol eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Caiff gwastraff clinigol ei drin a'i storio'n ddiogel a cheir gwared ohono'n ddiogel
- Cofnodion cleifion da
- Polisiâu a gweithdrefnau cyfredol i amddiffyn diogelwch y cleifion
- Mae rheolwr y ddeintyddfa a'r prif ddeintydd yn gweithio'n dda gyda thîm o staff sydd wedi hen sefydlu

Argymhellwn y gallai'r ddeintyddfa wella'r canlynol:

- Dylid sefydlu system reolaidd er mwyn canfod barn cleifion am y gwasanaeth
- Dylid diweddarau'r weithdrefn gwynion a dylai fod yn haws i'w gweld yn yr ystafell aros
- Dylid cynyddu'r ocsigen a ddefnyddir mewn argyfwng yn unol â chanllawiau cenedlaethol
- Dylid gwella diogelwch yr adeilad
- Dylai caniatâd cleifion ac ansawdd delweddau pelydr-X gael eu cofnodi'n rheolaidd yn nodiadau'r cleifion

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Dywedodd yr holl gleifion a lenwodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd yn Neintyddfa Tywyn.

Roeddem yn argymhell y dylai'r ddeintyddfa ddatblygu system reolaidd o ganfod barn cleifion fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roeddem yn argymhell hefyd y dylid diweddarau'r weithdrefn gwynion fel bod cleifion yn gwybod sut i fynegi cwyn, pe cyfyd yr angen.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r ddeintyddfa ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth deintyddol a ddarperir. Cafodd ugain o holiaduron eu dychwelyd. Dywedodd y cleifion i gyd eu bod wedi bod yn gleifion yn y ddeintyddfa ers blynnyddoedd lawer, a dywedodd rhai o'r cleifion fod sawl cenhedlaeth o'u teulu wedi bod yn gleifion yn y ddeintyddfa.

Roedd sylwadau gan gleifion yn cynnwys:

“Mae'r staff yn drylwyr a dymunol iawn. Mae'n bleser mynd at y deintydd.”

“Mae'n ddeintyddfa fach gyfeillgar.”

“Fydden ni ddim yn mynd i unman arall i gael triniaeth ddeintyddol.”

“Proffesiynol iawn.”

“Gwasanaeth croesawgar a chyfeillgar iawn. Ardderchog gyda phlant.”

“Rydym ni wrth ein boddau gyda'n gwasanaeth yn Neintyddfa Tywyn. Diolch.”

Gofal gydag urddas

Gwelsom fod y bobl oedd yn ymweld â'r ddeintyddfa yn cael eu trin ag urddas a pharch gan dîm y staff. Gwelsom fod yr aelodau staff yn broffesiynol ac yn gyfeillgar, a digwyddasom eu clywed yn bod yn gwrtais â chleifion dros y ffôn ac mewn sgysiau wyneb yn wyneb. Roedd sylwadau a wnaed yn holiaduron AGIC yn cadarnhau bod cleifion yn cael croeso wrth ymweld â'r ddeintyddfa.

Roedd derbynfa'r ddeintyddfa'n agos at ystafell aros y cleifion. Roedd hyn yn golygu y gallai'r aelodau staff sicrhau nad oedd modd i'r bobl oedd yn eistedd yn yr ystafell aros ddigwydd clywed sgysiau oedd yn digwydd gyda chleifion wrth ddesg y dderbynfa. Siaradodd aelod staff y dderbynfa gyda ni a chadarnhau'r ffordd y bydd yn sicrhau preifatrwydd i gleifion sydd eisiau sgwrs gyfrinachol. Gwelsom fod y drws i'r ystafell driniaeth oedd yn cael ei defnyddio ar ddiwrnod ein harolygiad ar gau pan oedd claf yn yr ystafell.

Dywedodd pob claf a lenwodd holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol. Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn cadarnhau bod y deintyddion yn trafod triniaethau unigol gyda'r cleifion eu hunain.

Roedd gwybodaeth am gostau gwasanaeth deintyddol preifat yn cael ei harddangos yn yr ystafell aros er budd y cleifion. Fodd bynnag, roedd y ddeintyddfa yn cynnig gwasanaethau'r GIG yn ogystal â gwasanaethau deintyddol preifat, ac nid oedd unrhyw wybodaeth am gost triniaeth y GIG.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai gwybodaeth am gostau triniaethau'r GIG gael ei harddangos yn amlwg yn ystafell aros y cleifion.

Gofal amserol

Gwelwyd bod y ddeintyddfa yn ceisio sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol. Cadarnhawyd hyn drwy sylwadau a dderbyniwyd yn holiaduron AGIC y cleifion. Nid oedd yr un o'r cleifion yn dweud eu bod wedi gorfod aros cyn gweld y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd yr aelodau staff wrthym y byddent yn gwneud yn siŵr bod cleifion yn cael gwybod pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Cadarnhawyd fod rhif cyswllt mewn argyfwng yn cael ei roi ar neges peiriant ateb y ddeintyddfa er mwyn i gleifion sy'n ffonio gael gofal deintyddol brys pan fo'r ddeintyddfa ar gau. Fodd bynnag, nid oedd arwydd i'w weld y tu allan i'r ddeintyddfa yn dangos y wybodaeth hon.

Dywedwyd wrthym fod Deintyddfa Tywyn yn rhan o grŵp o dair deintyddfa sydd wedi dod at ei gilydd i redeg gwasanaeth i gleifion sydd angen triniaeth ddeintyddol frys. Pwrpas hyn yw sicrhau nad oes yn rhaid i gleifion deithio'n rhy bell i dderbyn triniaeth frys. O ganlyniad i'r trefniant hwn, dywedwyd wrthym nad oes un rhif ffôn cyswllt yn unig mewn argyfwng i gleifion ei ddefnyddio.

Dywedodd un o'r cleifion a siaradodd gyda ni ar ddiwrnod yr arolygiad ei fod angen triniaeth frys ar Ddydd Gŵyl San Steffan a bod y broses wedi bod yn un

“hawdd iawn”. Fodd bynnag, dywedodd wyth o'r ugain o gleifion a lenwodd ein holiadur nad oeddent yn gwybod sut i gael triniaeth ddeintyddol mewn argyfwng. Awgrymwyd felly y dylai'r ddeintyddfa ystyried ffyrdd o hysbysu'r cleifion o'r trefniadau sydd ar waith mewn argyfwng.

Dywedodd tri o'r cleifion nad oeddent yn gwybod am y trefniadau gofal deintyddol brys y byddent yn edrych ar-lein pe byddai angen. Nid oes gan y ddeintyddfa wefan ar hyn o bryd, er bod cynlluniau ar y gweill i gyflwyno un yn haf 2016. Roeddem yn cynghori'r ddeintyddfa i ystyried “canllawiau hysbysebu” y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wrth gynllunio'r cynnwys ar gyfer eu gwefan.

Aros yn iach

Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn cynorthwyo i gefnogi cleifion i ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain. Gwelsom fod taflenni a phosteri hyrwyddo iechyd yn yr ystafell aros ar amrywiaeth o bynciau megis brwsio'r dannedd yn well, clefyd y deintgig, dannedd gosod, a siwgr ac iechyd geneuol plant. Gwelsom hefyd yn nodiadau'r cleifion, a chlywed mewn trafodaethau gyda'r deintydd, fod iechyd geneuol yn cael ei hyrwyddo'n uniongyrchol i gleifion yn ystod apwyntiadau. Roedd pob claf a lenwodd yr holiadur yn dweud eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Roedd hysbysfwrdd ar wahân yn yr ystafell aros ar gyfer gwasanaethau cymunedol megis grŵp cymorth canser lleol, a oedd yn cyfeirio cleifion at wasanaethau a allai eu cefnogi gyda'u hiechyd cyffredinol.

Cynghorwyd y ddeintyddfa i ystyried cynyddu'r defnydd o wybodaeth hyrwyddo iechyd weledol (lluniau) gan y byddai ystod eang o gleifion yn gweld y wybodaeth.

Gofal unigol

Roedd trefniadau ar waith yn y ddeintyddfa i helpu pobl oedd yn cael trafferthion symudedd i ddod i'r adeilad a derbyn gofal a thriniaeth mewn modd diogel. Roedd dau ddrws er mwyn mynd i mewn i'r ddeintyddfa, gydag un stepen fach. Defnyddir ramp cludadwy a drws ar wahân pan fo gan bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn apwyntiadau, er mwyn eu helpu i fynd i mewn i'r adeilad.

Er inni gael gwybod bod cleifion yn cael eu hannog i siarad gyda'r aelodau staff am unrhyw broblemau neu bryderon, gwelsom nad oedd gan y ddeintyddfa system ar gyfer cael adborth rheolaidd gan gleifion, megis arolygon cleifion, fel modd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r ddeintyddfa ddatblygu system o gael barn cleifion yn rheolaidd fel modd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

Gwelsom fod gan y ddeintyddfa weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer delio â phryderon (cwynion) ynglŷn â thriniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Roedd gweithdrefn gwyno gwasanaeth y GIG a'r gwasanaeth preifat ar y cyd i'w gweld yn yr ystafell aros; fodd bynnag, roedd yr ysgrifen yn fach iawn a gallai fod yn anodd i rai cleifion ei gweld. Dywedodd hanner y cleifion a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent yn ymwybodol o sut y dylid cyflwyno cwyn, pe codai'r angen. Awgrymwyd bod y ddeintyddfa'n ystyried paratoi'r wybodaeth am gwynion mewn print mwy er mwyn helpu cleifion i ddeall eu hawliau yn hyn o beth.

Gwelsom nad oedd yr amserlenni a ddarparwyd er mwyn cydnabod ac ymateb i gwynion yn cyd-fynd â'r trefniadau ar gyfer mynegi pryderon ynglŷn â thriniaeth y GIG (a elwir yn "Gweithio i Wella") a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008. Er bod y weithdrefn yn atgyfeirio cleifion y GIG yn y modd cywir at y bwrdd iechyd a chleifion preifat at AGIC, gwelsom fod manylion sefydliadau eraill y gallai cleifion gysylltu â hwy, megis y Cyngor Iechyd Cymuned ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ar goll.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r ddeintyddfa ddiweddarau'r polisi/weithdrefn gwynion er mwyn sicrhau'r canlynol:

- ***Bod manylion am y Cyngor Iechyd Cymuned ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi eu cynnwys ar gyfer cleifion sy'n derbyn triniaeth y GIG***
- ***Bod yr amserlenni ar gyfer ymateb i gwyn yn cydymffurfio â threfniadau "Gweithio i Wella" y GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008***

Gwelwyd tystiolaeth o'r ffordd y mae'r ddeintyddfa'n cofnodi cwynion. Roedd y ddeintyddfa wedi derbyn wyth cwyn yn yr wyth mlynedd diwethaf. Caiff pob cwyn ei chofnodi gan reolwr y ddeintyddfa yn ogystal â'r canlyniad. Mae hyn yn caniatáu i'r ddeintyddfa ystyried a oes unrhyw dueddiadau neu themâu yn codi o'r cwynion a dderbynnir.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Yn gyffredinol, gwelsom fod y ddeintyddfa'n cyrraedd y safonau gofynnol. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith er mwyn osgoi haint cysylltiedig â gofal iechyd a'r niwed cysylltiedig â defnyddio offer pelydr-X. Roedd trefniadau digonol ar waith hefyd er mwyn glanhau a sterileiddio'r offerynnau deintyddol a ddefnyddiwyd yn y ddeintyddfa.

Roedd y sampl o gofnodion a welsom yn dda yn gyffredinol ac yn dangos bod gofal deintyddol wedi ei gynllunio a'i gyflwyno yn ystyriol o ddiogelwch a lles cleifion.

Gofal diogel

Gwelsom fod gan y ddeintyddfa systemau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles yr aelodau staff sy'n gweithio yn y ddeintyddfa a'r bobl sy'n ymweld â'r ddeintyddfa. Roedd nifer o bolisiau perthnasol ar gael i aelodau staff gyda'r nod o ddarparu gofal diogel i gleifion.

Roedd yn ymddangos bod adeilad y ddeintyddfa yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom offer ymladd tân mewn lleoliadau strategol o gwmpas y ddeintyddfa, a gwelsom fod yr offer wedi eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Gwelsom dystiolaeth bod profion dyfeisiadau cludadwy (PAT) wedi eu cynnal ar eitemau trydanol bach er mwyn asesu eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd dogfennaeth contract ar gael mewn perthynas â gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a drosglwyddir gan y ddeintyddfa. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel cyn i'r contractwr gwastraff ddod i'w gasglu. Nodwyd nad oedd unrhyw ddarpariaeth yn y ddeintyddfa ar gyfer gwastraff hylendid menywod, felly awgrymwyd bod y ddeintyddfa yn ei ychwanegu at y contract rheoli gwastraff presennol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r ddeintyddfa wneud trefniadau ar gyfer cael gwared â gwastraff hylendid menywod.

O edrych ar y trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r peiriant a ddefnyddir i roi aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth (cywasgydd), gwelsom nad oedd gwiriadau rheolaidd wedi eu cofnodi ar gyfer y cywasgydd. Siaradodd y prif ddeintydd gyda ni ynglŷn â hyn ar ddiwrnod yr arolygiad, a gweithredwyd llyfr llog ar unwaith er mwyn cofnodi gwiriadau dyddiol, wythnosol a misol.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddiogelu pobl rhag heintiadau cysylltiedig â gofal iechyd. Darparwyd cyfleusterau ymolchi a sychu dwylo ac roedd yr aelodau staff yn cadarnhau bod offer amddiffynnol personol, megis menig, ar gael iddynt.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan y ddeintyddfa ystafell wedi'i neilltuo ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol. Roedd y ddeintyddfa'n glanhau ac yn sterileiddio offerynnau yn yr ystafelloedd triniaeth pan nad oedd cleifion yn bresennol. Pan fo deintyddfeydd yn defnyddio'r un ystafell ar gyfer trin cleifion ac ar gyfer diheintio, argymhellir eu bod yn datblygu cynllun ar gyfer sefydlu lle neu ystafell sydd wedi ei neilltuo ar gyfer diheintio.¹ Dywedwyd wrthym fod y ddeintyddfa wedi dechrau meddwl am gynlluniau i drosi cegin bresennol y staff yn ystafell ddiheintio yn y dyfodol.

Roedd yr offer sterileiddio a oedd yn cael eu defnyddio yn amlwg mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth o dystysgrif arolygu gyfredol yn cadarnhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar yr offer ac roedd llyfrau llog wedi eu cadw i ddangos y broses hon.

Fe wnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth ac ystafell yr hylenydd) yn y ddeintyddfa. Roeddent yn lân ac yn daclus. Roedd yn amlwg bod yr offerynnau deintyddol yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd system ar waith i ddangos erbyn pa bryd yr oedd yn rhaid defnyddio offerynnau o'r fath neu, os nad oeddent yn cael eu defnyddio, pa bryd yr oedd angen eu glanhau a'u sterileiddio eto. Gwelsom fod un o'r eitemau o offer deintyddol a ddefnyddiwyd (blaen sugnydd) yn cael ei sterileiddio a'i aildefnyddio. Gan nad yw'n bosibl sicrhau bod y math hwn o offer yn ddi-haint, roeddem yn cynghori y dylai'r ddeintyddfa newid i'r math dylid eu taflu ar ôl eu defnyddio unwaith. Derbyniodd y ddeintyddfa ein sylwadau ac archebu blaenau sugnydd newydd, untro ar unwaith.

Gwelsom fod gan y ddeintyddfa drefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn derbyn y feddyginiaeth a'r driniaeth iawn mewn argyfwng. Gwelsom fod offer adfywio a chyffuriau ar gyfer argyfwng ar gael gyda system er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pan fo claf mewn argyfwng (llewygu). Er bod gan y ddeintyddfa ocsigen ar gael i'w ddefnyddio mewn argyfwng, gwelsom nad oedd

¹ Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Chwefror 2014 (diwygiad)

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

yn cyrraedd yr un lefel o ocsigen ag sy'n cael ei hargymell gan y Cyngor Dadebru (y DU).

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r ddeintyddfa sicrhau bod digon o ocsigen ar gael i roi 15 litr o ocsigen y funud am 30 munud, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (y DU).

Gwelsom gofnodion hyfforddi a oedd yn dangos bod hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd yn gyfredol, a pholisi adfywio cynhwysfawr a oedd yn cynnwys swyddogaethau penodol ar gyfer aelodau staff os yw claf yn llewygu.

Roedd cyffuriau ar gyfer argyfwng yn cael eu storio mewn bag arbennig yn y swyddfa. Gwelsom dystiolaeth bod y cyffuriau ac offer ar gyfer argyfwng yn cael eu harchwilio er mwyn sicrhau nad oeddent yn hen a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio. Dywedwyd wrthym nad oedd y swyddfa wedi'i chloi. Nid oedd unrhyw fesurau diogelwch penodol ar waith i ddiogelu'r adeilad yn erbyn mynediad heb awdurdod, megis larwm lladron. Roeddem yn cynghori'r ddeintyddfa i roi sylw i'r mater hwn, am fod angen diogelu'r offer a'r cyffuriau yn y ddeintyddfa.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r ddeintyddfa gymryd camau i sicrhau diogelwch yr adeilad, i sicrhau bod cyffuriau ac offer yn ddiogel.

Roedd gan y ddeintyddfa weithdrefn ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu i berygl. Roedd y cofnodion hyfforddiant a welwyd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig â materion diogelu. Gwelsom dystiolaeth o drefniant i'r aelodau staff nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant eto fynychu cwrs ar ddiogelu oedolion ym mis Ebrill 2016.

Daethom i'r casgliad fod gan y ddeintyddfa drefniadau ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X). Mae hyn am fod y ddogfennaeth a'r wybodaeth angenrheidiol ar ddefnyddio'r offer pelydr-X ar gael ac yn gyfredol. Roedd y tystysgrifau hyfforddiant a welsom yn dangos bod yr aelodau staff clinigol wedi derbyn yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio a'u bod yn cadw at y canllawiau a sefydlwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom nad oedd arwyddion rhybudd o ymbelydredd er mwyn adnabod mannau dan reolaeth yn cael eu harddangos; yn benodol, nid oedd arwyddion ar ddrysau'r ystafelloedd triniaeth. Mae Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999 yn nodi y dylid arddangos digon o arwyddion addas i roi rhybudd o fannau ymbelydredd sydd dan reolaeth/oruchwyliath. Cytunodd y ddeintyddfa i gywiro hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r ddeintyddfa sicrhau bod arwyddion rhybudd o ymbelydredd yn cael eu harddangos.

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y ddeintyddfa wedi cynnal archwiliadau clinigol fel rhan o'r broses sicrwydd ansawdd gyffredinol. Mae archwiliadau'n cynorthwyo'r ddeintyddfa i ganfod meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau cywirol. Gwelsom dystiolaeth bod y ddeintyddfa wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar, ond sylwom fod yr offeryn a ddefnyddiwyd i archwilio wedi ei gynllunio i'w ddefnyddio yn Lloegr yn bennaf. Roeddem yn cynghori'r ddeintyddfa i ddefnyddio'r offeryn a ddatblygwyd gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, fel yr argymhellir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05), sy'n benodol i Gymru.

Adolygwyd sampl ar hap o gofnodion electronig cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodi. Gwelsom fod y cofnodion yn dda ar y cyfan. Roedd y ddeintyddfa'n dilyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) mewn perthynas â'r amserlenni a argymhellwyd ar gyfer trefnu apwyntiadau nesaf cleifion.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella yn nodiadau'r cleifion:

- Nid oedd opsiynau ar gyfer triniaethau wedi eu cofnodi bob amser
- Er inni ddeall bod cleifion yn derbyn cyngor ar roi'r gorau i ysmegu, nid oedd hyn wedi ei gofnodi
- Nid oedd caniatâd cleifion ar gyfer triniaethau wedi ei gofnodi (ac eithrio gan yr hylenydd)
- Nid oedd ansawdd y ddelwedd radiograff (pelydr-X) wedi ei gofnodi

Yr hyn sydd angen ei wella

Yn nodiadau'r cleifion, dylai'r deintyddion sicrhau bod y canlynol yn cael eu cofnodi'n gyson:

- ***Opsiynau ar gyfer triniaeth***
- ***Cyngor ar roi'r gorau i ysmegu***
- ***Caniatâd cleifion***
- ***Ansawdd y ddelwedd radiograffig***

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y gwaith o reoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan y prif ddeintydd a rheolwr y ddeintyddfa. Dywedodd yr aelodau staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi a'u bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Roedd pob aelod o staff a siaradodd gyda ni yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion, ac roedd hyn yn cael ei ategu gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau.

Mae Deintyddfa Tywyn yn ddeintyddfa deuluol sydd wedi hen sefydlu. Adeiladwyd y ddeintyddfa gan ewythr y prif ddeintydd presennol dros hanner can mlynedd yn ôl. Mae tîm bychan y ddeintyddfa wedi hen sefydlu ac roedd trosiant staff yn isel iawn. Roedd yr aelodau staff a siaradodd gyda ni yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion. Roedd y sgysiau gyda'r aelodau staff oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan reolwr y ddeintyddfa a'r prif ddeintydd yn eu swyddi.

Gwelsom fod y ddeintyddfa wedi ei threfnu'n dda gan y rheolwr. Gwelsom amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau i sicrhau bod gofal a thriniaethau'n cael eu cyflwyno'n ddiogel ac mewn modd amserol. Roedd tystiolaeth bod yr aelodau staff i gyd wedi gweld y polisiau, a oedd wedi eu dyddio ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Dywedodd yr aelodau staff wrthym eu bod yn teimlo bod tîm y ddeintyddfa'n cyfathrebu'n effeithiol. Cynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig y cyfarfodydd hyn. Dywedodd yr aelodau staff wrthym, am fod y tîm yn un bach, nad oedd yn rhaid i unrhyw faterion aros i gael eu trafod mewn cyfarfod ffurfiol gan fod y tîm yn siarad yn anffurfiol bob dydd.

Dywedodd yr aelodau staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus ynglŷn â mynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir yn y ddeintyddfa i reolwr y ddeintyddfa neu'r prif ddeintydd. Gwelwyd bod gweithdrefn chwythu'r chwiban ar waith hefyd er mwyn galluogi aelodau staff i fynegi pryderon ynglŷn â gofal a diogelwch cleifion os oes angen.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod aelodau staff wedi mynychu hyfforddiant ar bynciau perthnasol i'w swyddi. Cadarnhaodd yr aelodau staff a siaradodd gyda ni eu bod yn cael cyfleoedd i fanteisio ar hyfforddiant. Gwelsom fod gwaith aelodau staff y ddeintyddfa wedi ei arfarnu o fewn y flwyddyn ddiwethaf gyda'r nod o adnabod anghenion datblygu a hyfforddi. Hwn oedd y

tro cyntaf i aelodau staff y ddeintyddfa gael arfarniad ac roeddent yn croesawu'r datblygiad hwn.

Deallwyd o drafodaeth gyda'r prif ddeintydd yr arferid cynnal adolygiad clinigol gan gymheiriaid gyda rhai o ddeintyddion eraill yr ardal leol. Fodd bynnag, daeth hyn i ben oherwydd cyfyngiadau amser a chyfyngiadau daearyddol. Deintyddfa Tywyn yw'r unig ddeintyddfa yn Nhywyn, ac mae Tywyn yn lleoliad ynysig yn ddaearyddol. Mae'r ddau ddeintydd sy'n gweithio yn y ddeintyddfa yn cael trafodaethau clinigol anffurfiol, ond cynghorwyd y prif ddeintydd i ystyried ffyrdd o gyflwyno trefniant mwy ffurfiol o ran adolygiad gan gymheiriaid.

Gwelsom fod pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y ddeintyddfa wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Fodd bynnag, nid oedd rhifau cofrestru'r cyngor wedi eu harddangos i'r cleifion eu gweld.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai gwybodaeth (enwau a rhifau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol lle bo'n briodol) y tîm staff gael ei harddangos mewn man lle mae'n hawdd i gleifion ei gweld.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod gan aelodau staff clinigol yswiriant indemniad. Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod aelodau staff wedi cael brechiad yn erbyn Hepatitis B i amddiffyn eu hunain a'u cleifion.

O edrych ar amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a gedwir gan y gwasanaeth, gwelwyd bod systemau a phrosesau addas ar waith i sicrhau bod offer deintyddol ac offer eraill yn cael eu harchwilio'n amserol ac yn unol â gofynion gorfodol.

Roedd tystysgrifau AGIC y deintyddion wedi eu harddangos yn amlwg yn ôl gofynion rheoliadau² deintyddiaeth breifat. Yn ogystal, roedd gan y ddau ddeintydd dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd o fewn y tair blynedd ddiwethaf yn ôl gofynion y rheoliadau uchod.

² Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

5. Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r ddeintyddfa gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i roi sylw i brif ganfyddiadau'r arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pa bryd ac ym mha ffordd y bydd yr hyn a ganfuwyd yn Neintyddfa Tywyn yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y ddeintyddfa i ymateb i'r materion a nodwyd fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi digon o sicrwydd i AGIC ynghylch y materion hynny.

Pan fo camau yng nghynllun gwella'r ddeintyddfa yn dal i fod angen eu cyflawni a/neu ar y gweill, dylai'r ddeintyddfa roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fo'r camau wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o weithredu arolygiadau mewn ysbytai yn GIG Cymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae'r gwasanaeth yn darparu gofal diogel, dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau yn allweddol i'r dyfarniadau a wnawn ynghylch ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal

Ffigur 1



Bydd unrhyw ddeintydd sydd yn gweithio yn y ddeintyddfa sydd wedi cofrestru gydag AGIC i gynnig deintyddiaeth breifat yn destun i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008³ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiad) 2011.⁴ Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r ddeintyddfa yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennaeth a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion deintyddol
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r ddeintyddfa
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y ddeintyddfa a'r wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad yn cael eu hysbysu i'r ddeintyddfa a'r bwrdd iechyd drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wnaed, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae archwiliadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar ddefnyddio safonau yn y ddeintyddfa ar ddiwrnod yr ymweliad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Deintyddfa Tywyn

Dyddiad yr arolygiad: 12 Ionawr 2016

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Dylai gwybodaeth am gostau triniaethau'r GIG gael ei harddangos yn glir yn ystafell aros y cleifion.	Safon CDC 2.4.1	Wedi ei harddangos yn yr ystafell aros erbyn hyn	Rheolwr y Ddeintyddfa	Cwblhawyd
7	Dylai'r ddeintyddfa ddatblygu system er mwyn gofyn barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.	Safon Iechyd a Gofal 6.3 Safon CDC 2.1	Yn y broses o baratoi holiadur adborth cleifion, i gael ei adael yn yr ystafell aros yn barhaol i gleifion ei lenwi. Anelu at gasglu ymatebion bob mis o'r blwch "Sylwadau".	Rheolwr y Ddeintyddfa	1 mis
8	Rhaid i'r ddeintyddfa ddiweddarau'r	Safon Iechyd a	Wedi diweddarau'r "Polisi Cwynion", sydd bellach yn cael ei arddangos	Rheolwr y Ddeintyddfa	Cwblhawyd

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	polisi/weithdrefn gwyno er mwyn sicrhau bod: - Manylion am y Cyngor Iechyd Cymuned ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael eu cynnwys ar gyfer cleifion sy'n derbyn triniaeth gan y GIG - Amserlenni ar gyfer ymateb i gŵyn yn cydymffurfio â threfniadau "Gweithio i Wella" y GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008	Gofal 6.3 Safon CDC 5.1	yn yr ystafell aros gyda'r wybodaeth ychwanegol ofynnol.		
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
9	Dylai'r ddeintyddfa wneud trefniadau ar gyfer cael gwared â gwastraff hylendid menywod.	WHTM 01-05	Sgwrs yn digwydd dros e-bost gyda <i>Canon Hygiene</i> ynglŷn â chyfleuster i gael gwared â gwastraff hylendid menywod. (Bydd yn cyrraedd ar 12 Chwefror 2016 a bydd casgliad misol wedi hynny.)	Rheolwr y Ddeintyddfa	1 mis
11	Dylai'r ddeintyddfa sicrhau bod digon o ocsigen ar gael i roi 15 litr o	Safon Iechyd a	Sgwrs yn digwydd dros e-bost gyda BOC LIFELINE ynglŷn ag archebu	Rheolwr y Ddeintyddfa	1 mis

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	ocsigen y funud am 30 munud, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (y DU).	Gofal 2.9	silindr ocsigen newydd. (Wedi ei archebu erbyn hyn. Bydd yn cyrraedd ar 8 Chwefror 2016.)		
11	Rhaid i'r ddeintyddfa gymryd camau i sicrhau diogelwch yr adeilad, er mwyn sicrhau bod y cyffuriau a'r offer yn ddiogel.	Safon lechyd a Gofal 2.6 Llyfr Fformiwlâu Ymarferwyr Deintyddol	Mae ein blwch cyffuriau ar gyfer argyfwng bellach yn cael ei gloi ar ddiwedd bob diwrnod gwaith. Mae cynlluniau ar gyfer gwneud yr ystafell driniaeth yn fwy diogel ar y gweill, gan gynnwys mynedfa newydd yn nhu blaen yr adeilad.	Rheolwr y Ddeintyddfa Rheolwr y Ddeintyddfa	Cwblhawyd 6 – 12 mis
11	Dylai'r ddeintyddfa sicrhau bod rhybuddion ymbelydredd newydd yn cael eu gosod.	Rheoliadau Ymbelydriad au Ïoneiddio 1999	Mae arwyddion bellach wedi eu gosod ar ddrysau'r ystafell driniaeth.	Rheolwr y Ddeintyddfa	Cwblhawyd
12	Yn nodiadau'r cleifion, dylai'r deintydd sicrhau bod y canlynol yn cael ei gofnodi'n gyson: - Opsiynau ar gyfer triniaethau - Cyngor ar roi'r gorau i ysmegu - Caniatâd cleifion	Safon lechyd a Gofal 3.3 a 3.5 Safon CDC 4	Mae'r wybodaeth hon wedi ei rhannu â'r aelodau staff i gyd yn barod ac wedi ei rhoi ar waith.	Rheolwr y Ddeintyddfa	Cwblhawyd

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd delweddau radiograffig				
Ansawdd y Rheolaeth a'r Arweinyddiaeth					
14	Dylai gwybodaeth (enwau a rhifau CDC lle bo'n briodol) y tîm staff gael ei harddangos mewn man lle gall y cleifion ei gweld yn rhwydd.	Safon CDC 6.6.10	Mae hysbysiad bellach wedi ei osod yn yr ystafell aros sy'n dangos enwau a rhifau CDC pob aelod o staff lle bo'n briodol.	Rheolwr y Ddeintyddfa	Cwblhawyd

Cynrychiolydd y Ddeintyddfa:

Enw (print): Mrs Kay Langston.....

Teitl: Rheolwr y Ddeintyddfa.....

Dyddiad: 19 Ionawr 2016.....